# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont Ogwr

**Ward: Pen-y-fai**

## Cynghorydd Heidi Bennett

## Plaid: Llafur Cymru a'r Blaid Gydweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mai 2023**.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Ers cael fy ethol yn gynrychiolydd preswylwyr Pen-y-fai a Chwrt Colman ym mis Mai 2022, rwyf wedi cael fy mhenodi'n aelod o 8 o bwyllgorau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac rwy'n Gadeirydd un ohonynt.

Rwy'n aelod o'r pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, Rheoli Datblygu, Trwyddedu, Deddf Trwyddedu 2003, Is-bwyllgor Trwyddedu B a'r Fforwm Cyngor Tref a Chymuned. Rwyf hefyd yn Gadeirydd y Panel Apeliadau. Mae hyn yn ychwanegol at y cyngor llawn misol.

O fis Mai 2022 hyd at fis Mai 2023 cymerais ran weithredol mewn 43 o gyfarfodydd pwyllgor ac roedd gennyf bresenoldeb o 100%. Mae fy ngweithgaredd o ran y pwyllgorau'n cyflawni swyddogaethau strategol, craffu a rheoleiddiol y Cyngor. Fodd bynnag, yr un mor bwysig, os nad yn bwysicach, yw'r gwaith yr wyf wedi'i wneud ar ran etholwyr yn fy ward sydd wedi'i amlinellu isod.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl a bod yn aelod o 5 pwyllgor rheoleiddio, rwyf wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar-lein ac rwyf hefyd wedi cymryd rhan mewn sawl sesiwn datblygu aelodau sydd wedi helpu i sicrhau fy mod yn diweddaru fy nealltwriaeth, fy ngwybodaeth a fy sgiliau a'u bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol.

Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld drwy ddilyn y ddolen hon:

Manylion Cynghorydd - Cynghorydd Heidi Bennett – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Gweithgaredd yn yr Etholaeth**

Fe wnes i gynnal rhai sesiynau cymhorthfa wyneb yn wyneb lleol i ymgysylltu'n weithredol a gwrando ar farn a phryderon preswylwyr ac rwy'n falch mai cymhorthfa ar y cyd gydag aelod lleol y Senedd, Sarah Murphy AS, oedd un o'r rhain.

Cyflwynais 113 o atgyfeiriadau/gwaith achos ffurfiol. Ni wnaeth pob ymateb i waith achos arwain at ganlyniadau cadarnhaol, ac mae rhai atgyfeiriadau yn parhau'n agored sawl mis yn ddiweddarach. Fodd bynnag, fe wnes i gynorthwyo ag amrywiaeth eang o faterion yn ystod y cyfnod hwn gan gynnwys hawliau tenantiaid, materion cyflymder, cymorth i ffoaduriaid, lles anifeiliaid a materion mwy gweladwy fel cynnal a chadw parciau, torri gwair, llosgi sbwriel, ceuffosydd wedi'u rhwystro ac, wrth gwrs, tyllau yn y ffyrdd (i enwi ond rhai). Nid oedd pob mater

yn dod o fewn pwerau neu gylch gwaith Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ond er hyn, ymatebais er mwyn helpu i ddatrys materion lle y bo'n bosibl.

Hefyd, fe wnes i godi materion ynghylch diogelu mannau gwyrdd a thipio anghyfreithlon gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, niwsans plâu a chamau gorfodi o ran tipio anghyfreithlon gyda gwasanaethau rheoliadol ar y cyd, a diogelu, cynnal a chadw ac ailagor Hawliau Tramwy Cyhoeddus (fel Colman Vale). Fe wnes i hefyd uwchgyfeirio pryderon preswylwyr ynghylch gwasanaethau gofal iechyd fel mynediad at ddeintyddion at Aelod y Senedd.

O ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, fe wnes i gysylltu â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'u rhoi mewn cysylltiad â phreswylwyr lle'r oedd amgylchiadau personol yn galw am ymyrraeth ganddynt.

Roeddwn i'n falch bod y llinellau igam ogam melyn wedi'u hymestyn ar Heol Eglwys ger yr ysgol mewn ymateb i bryderon preswylwyr am ddiogelwch disgyblion a bod y cynllun prawf wedi'i fabwysiadu'n barhaol eleni.

Fe wnes i gysylltu â V2C hefyd ynghylch pryderon am ddiogelwch rhai hen garejys yn Protheroe a chawsant eu symud oddi yno maes o law.

Ar 26 o achlysuron eraill, fe wnes i gynorthwyo preswylwyr yn uniongyrchol a/neu eu cyfeirio'n gyflym at ffynonellau cymorth eraill heb fod angen mynd drwy broses atgyfeirio ffurfiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, er enghraifft cefnogi preswylwyr i gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth ymarferol megis eu cyfeirio at fanciau bwyd/pantrïoedd, Cyngor ar Bopeth, gofal ac atgyweirio, V2C ac asiantaethau arbenigol lleol eraill.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwy'n parhau i fod yn rhan o brosiect Trosglwyddo Asedau Cymunedol o ran Pheasant Field.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwy'n wirfoddolwr gweithgar yn y gymuned ac rwy'n un o ymddiriedolwyr Cymdeithas Gymunedol Pentref Pen-y-fai (PVCA) a Chyngor Cymuned Castellnewydd Uchaf (NHCC). Fe weithiais i ar y cyd â thrigolion a chynghorwyr cymuned i ddatblygu mentrau fel sesiynau casglu sbwriel gwirfoddol misol, dathliadau 'Jubitea' ac, yn fwyaf diweddar, y ganolfan 'Croeso Cynnes' ym Mhen-y-fai.

Roedd gen i gyfrifoldebau ychwanegol hefyd fel Cadeirydd Cyngor Cymuned Castellnewydd Uchaf (NHCC) ac, yn ystod blwyddyn gyntaf y tymor newydd, gwelwyd mwyafrif o Gynghorwyr newydd yn cael eu hethol i'r swydd am y tro cyntaf. Fe arweiniais i waith i ddiweddaru a gwella prosesau a systemau (fel polisïau, gweithdrefnau, caffael, cyfrifyddu, adrodd), gan gyflwyno pwyllgorau ffurfiol i gefnogi trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau da. Roedd hyn yn golygu bod Cyngor Cymuned Castellnewydd Uchaf mewn sefyllfa dda i sicrhau arfer gorau a chydymffurfiaeth gyfreithiol i'r dyfodol.

Roedd preswylwyr yn gallu cael gafael arnaf drwy gymorthfeydd 1-2-1, dros y ffôn, drwy decstio, drwy'r post, drwy e-bost, a thrwy anfon negeseuon uniongyrchol ar FB a WhatsApp. Roeddwn i hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gymuned am bolisïau a newyddion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

**Cynghorydd:** Heidi Bennett **Dyddiad: 22/06/2023**